Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd am 5.30 pm yn Neuadd y Penrhyn, Bangor ar **8 Rhagfyr 2025.**

**YN BRESENNOL: -** Cyng. John Wynn Jones (Cadeirydd), Cyng. Steve Bell, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Delyth Russel, Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig).

**F20/25 YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Gareth Parry, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Jackie Spence.

**F21/25 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim

**F22/25 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD 3 TACHWEDD 2025**
*Roedd cofnodion cyfarfod 3 Tachwedd 2025 wedi'u hanfon o flaen llaw*
*Roedd gwaith papur y Cais am Grant wedi'i anfon o flaen llaw.*
Aseswyd y cais am grant gan ddefnyddio Taflenni Asesu Grant Cyngor y Ddinas. Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r Clinig Cyngor Cyfreithiol, nid oedd yr Aelodau'n gyffyrddus i ariannu rhai o'r eitemau oedd wedi'u rhestru yn y cais.
**Penderfynwyd:** Gwrthod y cais yn ei ffurf bresennol a gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig drafod y cais gyda chynrychiolwyr o'r Clinig Cyngor Cyfreithiol gyda golwg ar dderbyn cais diwygiedig yn y Flwyddyn Newydd.

**F24/25 YSTYRIED CAIS AM GRANT GAN Y BANGOR RHYTHM & BLUES MAJORETTES**
*Roedd gwaith papur y Cais am Grant wedi'i anfon o flaen llaw.*
Aseswyd y cais am grant gan ddefnyddio Taflenni Asesu Grant Cyngor y Ddinas. Roedd y cais hwn yn gofyn am gymorth ariannol i brynu gwisgoedd i'r criw *majorettes* oedd newydd ei sesfydlu. Dyma'r criw *majorettes* cyntaf ym Mangor ers yr 1990au.
**Penderfynwyd:** Argymell cymeradwyo'r cais am grant yn llawn.

**F25/25 YSTYRIED CAIS AM GRANT GAN CYNGOR AR BOPETH.**
*Roedd gwaith papur y Cais am Grant wedi'i anfon o flaen llaw.*
Aseswyd y cais am grant gan ddefnyddio Taflenni Asesu Grant Cyngor y Ddinas. Yn ystod yr asesiad codwyd nifer o faterion, yn cynnwys y gorgyffwrdd rhwng Cyngor ar Bopeth, y Ganolfan Cyngor Cyfreithiol a Hwb Cymunedol y Ddinas. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith fod CAB yn derbyn grant blynyddol gan Gyngor y Ddinas ac o dan y canllawiau diwygiedig, a gymeradwywyd yn y cyfarfod diwethaf, dim ond unwaith bob tair blynedd y gall pob sefydliad dderbyn grant.
**Penderfynwyd:** Parhau â'r grant blynyddol o £1,500 y flwyddyn ond gwrthod y cais hwn am £9,800.

**F26/25 YSTYRIED CAIS AM GRANT GAN GRŴP CYMUNEDOL BANGOR.**
*Roedd manylion y cais hwn am gymorth ariannol wedi'u hanfon o flaen llaw.*
Aseswyd y cais am grant gan ddefnyddio Taflenni Asesu Grant Cyngor y Ddinas. Trafododd y Pwyllgor y cais hwn am gymorth ariannol i drefnu digwyddiad Nadolig ar y 21, nid oedd

digon o amser i gael cymeradwyaeth derfynol gan y Cyngor. Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig, gan fod y cais am £2,000, gyda chymorth y Maer a Chadeirydd y Pwyllgor, y gellid delio â'r cais hwn o dan ei awdurdod dirprwyedig.
**Penderfynwyd:** gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig gymeradwyo'r gefnogaeth o dan awdurdod diprwyedig, gyda chymeradwyaeth parod y Maer a Chadeirydd y Pwyllgor.

**F27/25 TRAFOD Y GYLLIDEB AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2026-2027.**
*Roedd cyllideb ar fformat newydd wedi'i hanfon i'r Aelodau o flaen llaw*
Yn unol â'r cais gan y Cyngor i baratoi cyllideb ariannol 2026-2027 ar ffurf gliriach, adroddwyd fod y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Cyfarwyddwr Dinesig wedi cyfarfod. Yn ystod y cyfarfod hwnnw cafodd y ffurflen a ddefnyddir i baratoi a chyflwyno'r gyllideb ariannol flynyddol ei hail-ddylunio fel ei bod yn gliriach ac yn cyd-fynd yn agosach â'r adroddiad chwarterol yn erbyn y gwirioneddol. Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn cwrdd ddechrau mis Ionawr i drafod cynnwys cyllideb 2026-2027
**Penderfynwyd:** argymell mabwysiadu'r ffurf ddiwygiedig o gyflwyno'r adroddiad cyllideb blynyddol.

**F28/25 CYMERADWYO'R RHESTR DALIADAU AR GYFER**
**i) mis Hydref**
*Roedd rhestr daliadau mis Hydref wedi'i hanfon i'r Aelodau o flaen llaw*
Trafodwyd y rhestr daliadau gan y Pwyllgor gan drafod nifer o daliadau.
**Penderfynwyd:** cymeradwyo rhestr daliadau mis Hydref.

**F29/25 DERBYN ADRODDIAD CYSONI'R BANC MIS HYDREF.**
Cafodd adroddiad cysoni'r banc mis Hydref ei werthuso gan ddau aelod o'r pwyllgor a'i lofnodi a'i ddyddio fel adroddiad cywir gan y ddau.
**Penderfynwyd:** derbyn adroddiad cysoni'r banc mis Hydref.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.25 pm**
CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR